# Cymwysterau TGAU Gwneud-i-Gymru a Chymwysterau Cysylltiedig

# Trosolwg o Gasgliadau'r Ymgynghoriad

Fersiwn 1.0



Gwnaed i Gymru.
Yn barod i'r byd.

## Cynnwys


Cefndir ... 3

Adborth Cyffredinol ... 4

Adborth Pwnc-benodol ... 8

Maes Dysgu a Phrofiad y Celfyddydau Mynegiannol ... 8

- TGAU Celf a Dylunio ... 8
- TGAU Drama ... 8
- TGAU Cerddoriaeth ... 9

Maes Dysgu a Phrofiad Y Dyniaethau ... 10

- TGAU Busnes ... 10
- TGAU Daearyddiaeth ... 10
- TGAU Hanes ... 11
- TGAU Astudiaethau Crefyddol ... 12

Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Llesiant ... 14

- TGAU Bwyd a Maeth ... 14

Maes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu ... 15

- Lefel 2 Dyfarniad mewn Cymraeg Craidd Ychwanegol ... 15
- TGAU Cymraeg Iaith a Llenyddiaeth (Gradd Unigol a Dwyradd) ... 15
- TGAU Cymraeg Craidd ... 16
- TGAU Saesneg Iaith a Llenyddiaeth (Gradd Unigol a Dwyradd) ... 17
- TGAU Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg ... 19

Maes Dysgu a Phrofiad Mathemateg a Rhifedd ... 20

- TGAU Mathemateg a Rhifedd ... 20

Maes Dysgu a Phrofiad Gwyddoniaeth a Thechnoleg ... 21

- TGAU Cyfrifiadureg ... 21
- TGAU Y Gwyddorau (Dwyradd) ... 22




© WJEC CBAC Cyf.

## Cefndir

Ym mis Mehefin 2023, cyhoeddodd Cymwysterau Cymru Feini Prawf Cymeradwyo ar gyfer cyfres o TGAU Gwneud-i-Gymru a chymwysterau cysylltiedig (https://cymwysterau.cymru/rheoleiddio-a-diwygio/diwygio/cymwys-ar-gyfer-y-dyfodol/tgau-gwneud-i-gymru/). Penderfynodd Cymwysterau Cymru y byddai'r cymwysterau hyn yn cael eu cyflwyno fesul cam; mae CBAC erbyn hyn yn datblygu'r cymwysterau a fydd ar gael i'w haddysgu am y tro cyntaf o fis Medi 2025 i fodloni'r gofynion hyn.

Cafodd Grŵp Cynghori ar Ddatblygu Pynciau ei recriwtio i bob pwnc gan CBAC a thrafodwyd cynigion ar gyfer pob cymhwyster. Datblygwyd egwyddorion ac arweiniad gennym yn ogystal er mwyn sicrhau bod y cymwysterau a ddatblygir yn cefnogi'r Cwricwlwm i Gymru. Ar sail y Meini Prawf Cymeradwyo, ein hegwyddorion ac arweiniad a'r trafodaethau â'n Grwpiau Cynghori, datblygwyd amlinelliad o'r cymhwyster i bob cymhwyster. Mae'r ddogfen hon yn canolbwyntio ar lefel uchel ar y strwythur, dibenion unedau a'r dull asesu.

Cyn mynd ati i ddefnyddio'r amlinelliadau hyn fel sail ar gyfer datblygu ein manylebau a deunyddiau asesu enghreifftiol manwl, roeddem yn awyddus i glywed gan ddewis ehangach o randdeiliaid. Felly cynhaliwyd ymgynghoriad agored ar ein gwefan mewn dau gam:

| Cymwysterau Swp 1 | Cymwysterau Swp 2 |
|---|---|
| • Lefel 2 Dyfarniad mewn Cymraeg Craidd Ychwanegol<br>• TGAU Busnes<br>• TGAU Celf a Dylunio<br>• TGAU Cyfrifiadureg<br>• TGAU Cymraeg Craidd<br>• TGAU Daearyddiaeth<br>• TGAU Drama<br>• TGAU Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg | • TGAU Astudiaethau Crefyddol<br>• TGAU Bwyd a Maeth<br>• TGAU Cerddoriaeth<br>• TGAU Cymraeg Iaith a Llenyddiaeth (Gradd Unigol a Dwyradd)<br>• TGAU Hanes<br>• TGAU Mathemateg a Rhifedd<br>• TGAU Saesneg Iaith a Llenyddiaeth (Gradd Unigol a Dwyradd)<br>• TGAU Y Gwyddorau (Dwyradd) |

Agorodd ymgynghoriad ar gyfer Swp 1 ddydd Mercher 18 Hydref 2023 a daeth i ben ddydd Mercher 8 Tachwedd 2023. Agorodd ymgynghoriad ar gyfer Swp 2 ddydd Mercher 25 Hydref 2023 a daeth i ben ddydd Mercher 15 Tachwedd 2023. Yn ystod y cyfnod yr oedd yr ymgynghoriad ar agor, aethom ati hefyd i drafod yr amlinelliadau gyda'n Grŵp Cynghori Datblygu TGAU a chymwysterau cysylltiedig, y Grŵp Cynghori Dysgwyr, Grŵp Cyfeirio'r Undebau a'r Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid. Rydym yn hynod ddiolchgar i bawb ohonoch oedd yn barod i rannu eich barn gyda ni yn rhan o'n hymrwymiad i gyd-awduro'r cymwysterau hyn.

Ers hynny, rydym wedi dadansoddi ac ystyried yr adborth yng nghyd-destun gofynion Meini Prawf Cymeradwyo Cymwysterau Cymru a'r Cwricwlwm i Gymru. Mae rhai diwygiadau wedi'u gwneud yn sgil hynny.

Mae llawer o'r sylwadau a wnaed yn berthnasol ar draws sawl pwnc – mae'r rhan adborth cyffredinol yn crynhoi'r materion hyn. Mae trosolwg o adborth pwnc-benodol yn dilyn, wedi'i grwpio yn ôl Maes Dysgu a Phrofiad.



© WJEC CBAC Cyf.

## Adborth Cyffredinol

Ar y cyfan cafwyd ymatebion cadarnhaol i'r ymgynghoriad. Tueddai'r ymatebwyr i gytuno'n fras bod strwythurau'r cymwysterau yn briodol, bod dibenion unedau yn briodol ac yn ymgysylltu â dysgwyr. Ar yr un pryd, roedden nhw'n teimlo eu bod yn bodloni diben a nodau'r cymwysterau, yn defnyddio dull asesu oedd yn briodol ac y byddai'r cymhwyster yn cefnogi'r Cwricwlwm i Gymru. Cafwyd rhai eithriadau o ran pynciau unigol – yn bennaf Saesneg Iaith a Llenyddiaeth, Hanes, Cymraeg Craidd a'r Gwyddorau – ond awgrymodd y sylwadau a wnaeth yr ymatebwyr bod y rhain yn ymwneud yn bennaf â gofynion y Meini Prawf Cymeradwyo a bennwyd gan Cymwysterau Cymru y mae'n rhaid i CBAC gadw atyn nhw. Mae mwy o fanylion o ran y pryderon a fynegwyd i'w cael yn rhan pwnc-benodol yr adroddiad.

Cafwyd y lefelau isaf o gytundeb am yr elfen hydrinedd, i'r dysgwyr a'r canolfannau fel ei gilydd. Er bod y rhan fwyaf o'r pryderon yn gysylltiedig â chyfran yr asesu di-arholiad, cafodd TGAU Y Gwyddorau (Gradd Unigol a Dwyradd) nad yw'n cynnwys asesiad di-arholiad sgorau is hefyd. Yn ôl y sylwadau a wnaed roedd y pryder yn ymwneud â lefel y cynnwys y mae'n rhaid i ni ei gynnwys yn ein cymhwyster.

### Asesu di-arholiad

Mynegwyd pryder ynghylch faint o asesu di-arholiad sydd yna, o ran cymwysterau unigol ac ar draws y gyfres o gymwysterau, roedd hynny'n rhywbeth cwbl amlwg yn yr ymatebion i'n hymgynghoriad. Mae maes o bryder nodedig yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad a'r trafodaethau â'r grwpiau rhanddeiliaid yn gysylltiedig â dysgwyr yn cyflawni asesiadau di-arholiad ar draws sawl pwnc, a'r effaith negyddol bosibl y gallai hyn ei chael ar lesiant dysgwyr. Pryder allweddol arall a fynegwyd o ran yr asesu di-arholiad oedd cynnydd yn llwyth gwaith athrawon. Roedd hyn yn arbennig o gyffredin mewn cymwysterau lle mae'r drefn asesu di-arholiad yn rhywbeth newydd neu'n rhywbeth sydd wedi cynyddu'n sylweddol.

Rhaid nodi nad yw CBAC yn gallu newid faint o asesiadau di-arholiad sydd nac ychwaith y gyfran sydd i'w marcio gan yr ysgolion, yn y TGAU Gwneud-i-Gymru a chymwysterau cysylltiedig newydd. Ystyriodd Cymwysterau Cymru gyfran yr asesiadau di-arholiad a'i ddull marcio yn ystod y broses o ddatblygu'r Meini Prawf Cymeradwyo, ac mae eu penderfyniadau terfynol yn cael eu hadlewyrchu yn eu Meini Prawf Cymeradwyo cyhoeddedig y mae'n rhaid i ni gadw atynt. Nododd Cymwysterau Cymru yn ei adroddiad ymgynghori ym mis Mehefin 2023 y byddai cyflwyno cyfran fwy ac amrywiaeth o asesiadau di-arholiad 'yn ei dro yn arwain at fwy o lwyth gwaith sy'n gysylltiedig ag asesu i ysgolion (https://qualifications.wales/media/dkcisr1u/made-for-wales-gcses-main-consultation-report-january-2024-update.pdf). Mae Cymwysterau Cymru wedi gofyn i ni sicrhau hydrinedd, o fewn paramedrau'r Meini Prawf Cymeradwyo. Trafodwyd hyn â'r rhanddeiliaid a byddwn yn parhau i wneud hynny wrth i ni fynd ati i ddatblygu manylion y cymwysterau.



© WJEC CBAC Cyf.

Thema allweddol a ddeilliodd o'r ymatebion i'r ymgynghoriad a'r trafodaethau â'n grwpiau rhanddeiliaid cyffredinol os tegwch i ddysgwyr. Yn ei ganllawiau ar lesiant, tegwch a chynhwysiant (https://hwb.gov.wales/evaluation-improvement-and-accountability/the-national-resource-evaluation-and-improvement/what-is-the-national-resource/well-being-equity-and-inclusion/) mae Llywodraeth Cymru yn disgrifio tegwch fel cael cyfle cyfartal i gyflawni mewn asesiadau, bod yr un deunyddiau a gofodau ar gael, tasgau asesu di-duedd, atal tuedd neu stereoteipio a chaniatáu i'r asesiad fod ar gael i fyfyrwyr heb ystyried beth yw eu cefndir. Teimlai rhai rhanddeiliaid bod asesu di-arholiad yn gallu anfanteisio rhai dysgwyr ymhellach. Mae'r rhain, er enghraifft, yn cynnwys y sawl sydd heb gefnogaeth na mynediad at adnoddau digonol gartref. Er y gall rhieni neu ofalwyr ddarparu cefnogaeth adolygu hefyd, gallai effaith y gefnogaeth sydd ar gael gartref fod yn fwy o ran asesu di-arholiad lle mae gofynion yr asesiadau di-arholiad yn glir ymlaen llaw a bod modd felly targedu mwy ar y gefnogaeth. Nid oedd rhai rhanddeiliaid yn credu bod hyn yn cyfateb i nodau Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl (https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2023-03/cenhadaeth-ein-cenedl-safonau-a-dyheadau-uchel-i-bawb.pdf) Llywodraeth Cymru nac i'w dogfen Cynllun Gweithredu Cymru Gwrth-hiliol (https://www.llyw.cymru/cynllun-gweithredu-cymru-wrth-hiliol).

Nododd yr ymatebwyr eu bod yn teimlo y dylai rheolaethau priodol fod yn eu lle i sicrhau bod pob ysgol yn asesu'n deg. Fel arall, gallai fod diffyg hyder yng nghanlyniadau cymwysterau a byddai hynny wedyn yn arwain at roi llai o werth ar gyrhaeddiad dysgwyr.

Ategwyd y safbwynt hwn gan y mwyafrif o'r rhanddeiliaid y buom yn ymgysylltu â nhw yn ein grwpiau rhanddeiliaid cyffredinol, gan gynnwys ein Grŵp Cynghori Dysgwyr. Roedden nhw'n hynod o bryderus am y diffyg tegwch posibl i bawb yn y drefn asesu di-arholiad.

Nodwyd yn ein trafodaethau yn ogystal y gallai cynyddu pwysoli'r asesiadau di-arholiad arwain at fwy o debygolrwydd o a chymhelliant i gamymddwyn. Mynegodd sawl ymatebwr bryder am Ddeallusrwydd Artiffisial a sut i fonitro hynny. Mynegwyd pryder y gallai rheolaethau isel ei gwneud yn anodd i fonitro'r defnydd o Ddeallusrwydd Artiffisial, gan fygwth tegwch i ddysgwyr.

Fodd bynnag, roedd safbwynt un o'r grwpiau rhanddeiliaid yn wahanol ar yr hyn oedd yn effeithio ar degwch. Gofynnodd am gael amrywiaeth o ddulliau asesu yn y TGAU, yn canolbwyntio ar ddulliau asesu parhaus sy'n seiliedig ar gymhwysedd, yn hytrach na gwaith cwrs neu brofion bach, er mwyn sicrhau'r tegwch mwyaf posibl. Teimlai'r grŵp hwn y dylai'r rheolaethau fod yn isel a mwy o ffydd yn cael ei roi ar asesu gan athrawon.

Pan fyddwn yn cyflwyno ein cymwysterau i'w cymeradwyo gan Cymwysterau Cymru, rhaid i ni ragnodi sut rydym wedi llwyddo i gydbwyso hydrinedd, ymgysylltiad, dibynadwyedd a dilysrwydd. Yn ôl gofynion Amodau Cydnabod Safonol Cymwysterau Cymru hefyd dylai ein cymwysterau ni, cyn belled ag y bo modd, sicrhau dilysrwydd, dibynadwyedd, cymaroldeb, hydrinedd a lleihau tuedd i'r eithaf. Mae angen i ni sicrhau hefyd ein bod yn cydbwyso'r ffactorau hyn orau y gallwn ni yng nghyd-destun y cymhwyster penodol hwnnw.



© WJEC CBAC Cyf.

Hydrinedd a lleihau effaith negyddol asesu ar addysgu a dysgu oedd y ffactorau a ddefnyddiwyd gennym fel canllaw o ran yr asesu di-arholiad cyn y cyfnod ymgynghori a'r trafodaethau â'r rhanddeiliaid. Mae'r rhain yn ystyriaethau pwysig iawn yn amlwg, ond rydym bellach yn cynnig ein bod yn rhoi tegwch dysgwyr wrth wraidd ein gwaith dylunio a phenderfynu o ran asesiadau di-arholiad. Mae'n bosibl y bydd canolbwyntio ar degwch fel hyn yn arwain at reolaethau a fydd yn cyfyngu rhywfaint ar yr hyblygrwydd a allai fod wedi helpu canolfannau i gydbwyso rhai o'r pryderon ynghylch hydrinedd. Nid yw sicrhau bod digon o reolaeth ar asesiadau yn golygu y byddwn yn gweithredu mewn ffordd unffurf o ran asesiadau a fyddai wedyn yn teimlo fel arholiad wedi'i sefyll yn yr ystafell ddosbarth; bwriadwn ddefnyddio sawl dull di-arholiad o hyd, gan gynnwys perfformiadau, portffolios ac ymchwiliadau ymarferol estynedig a thasgau ymholi. Er mwyn cyfateb i farn mwyafrif y rhanddeiliaid a wnaeth ymateb, byddwn yn anelu at sicrhau bod ein tasgau a'r rheolaethau cysylltiedig yn lleihau unrhyw fantais neu anfantais annheg i'r eithaf. Ar yr un pryd, byddwn yn ystyried y baich o ran hydrinedd ar y dysgwyr ac ar y canolfannau, dilysrwydd, dibynadwyedd a chymaroldeb yr asesiadau, ac ymgysylltiad y dysgwyr.

## Cyflwyno asesiadau di-arholiad yn ddigidol

Yn ôl gofynion y Meini Prawf Cymeradwyo mae angen i ni ei gwneud yn bosibl i ganolfannau gyflwyno asesiadau di-arholiad yn ddigidol. Yn ein hamlinelliadau drafft, cynigiwyd cyflwyno digidol fel yr unig ddewis, gan y byddai honno'n drefn gytbwys i bawb. Cafwyd rhai sylwadau cadarnhaol ynghylch cyflwyno digidol lle cynhyrchwyd gwaith dysgwyr yn ddigidol, ond mynegodd yr ymatebwyr bryder o ran llwyth gwaith athrawon a hydrinedd yn y canolfannau. Nodwyd nad yw'r isadeiledd ar gael mewn rhai ysgolion o bosibl i alluogi cynhyrchu'r gwaith yn ddigidol gan ddysgwyr yn y lle cyntaf. Mewn achosion fel hyn, gallai gymryd amser i sganio ac uwchlwytho asesiadau di-arholiad, yn enwedig o ystyried graddfa'r asesiadau di-arholiad ar draws y gyfres o gymwysterau. Mae'n anodd penderfynu beth fydd hyd a lled neu effaith unrhyw bryderon o'r adborth a gafwyd, ac mae'n anodd barnu i ba raddau y bydd y pryderon hynny wedi'u datrys drwy wella isadeiledd erbyn amser cyflwyno'r cymwysterau. Rydym yn gwneud gwaith pellach i archwilio hyn yn fanylach a byddwn yn egluro ein disgwyliadau yn y Gwanwyn.

## Arholiadau digidol

Mynegodd yr ymatebwyr bryderon hefyd ynghylch diffyg isadeiledd mewn ysgolion i gefnogi asesiad arholiadau digidol. Mae Cymwysterau Cymru, yn rhan o'i raglen rheoli newid, yn trafod parodrwydd canolfannau gyda rhanddeiliaid, CBAC yn eu plith.

## Maint y cynnwys

I rai rhanddeiliaid roedd maint y cynnwys yn yr amlinelliadau o'r cymwysterau'n llethol. Mewn rhai sylwadau nodwyd bod nifer yr oriau a ddyrannwyd i rai pynciau'n sylweddol wahanol i'r oriau dysgu dan arweiniad. Roedd y pryderon a nodwyd yma yn ymwneud â'u gallu i ymdrin â'r cynnwys yn y cyfnod amser a ddyrannwyd gan eu hysgol. Roedd sylwadau eraill yn awgrymu bod llawer gormod o gynnwys yn ein hamlinelliadau drafft i'r oriau dysgu dan arweiniad a ddyrannwyd. Mae'r rhannau pwnc-benodol perthnasol yn cynnwys mwy o fanylion am yr agwedd hon. Yn ystod cam nesaf y gwaith datblygu, byddwn yn edrych yn ofalus ar faint o gynnwys sydd yna o fewn paramedrau'r Meini Prawf Cymeradwyo.

## Ailsefyll Addysg Bellach

Mynegwyd pryderon gan sawl darparwr Addysg Bellach ynghylch ailsefyll, gyda phryderon penodol yn ymwneud â Mathemateg a Rhifedd, a Saesneg Iaith a Llenyddiaeth. Mae'r mater hwn yn cael ei drafod yn fanylach gyda Cymwysterau Cymru a byddwn yn trafod ymhellach â darparwyr Addysg Bellach hefyd.



© WJEC CBAC Cyf.

## Cysyniadau

Dryswyd rhai ymatebwyr gan ein bod wedi defnyddio cysyniadau yn yr amlinelliadau o'r cymwysterau. Defnyddiwyd y gair hwn gan fod dealltwriaeth gysyniadol yn rhywbeth allweddol yn y Cwricwlwm i Gymru. Roeddem am adlewyrchu hyn a sicrhau bod ein gwaith datblygu cychwynnol yn dechrau o gysyniadau allweddol a syniadau mawr yn hytrach na chynnwys gronynnol. Fodd bynnag, rydym wedi adolygu sut y defnyddiwyd cysyniadau gennym ar draws yr amlinelliadau ac mewn rhai achosion, lle nad yw'r gair yn ychwanegu gwerth neu os nad yw'r Meini Prawf Cymeradwyo yn cyfeirio at gysyniadau, rydym wedi dileu'r cyfeiriadau hyn.

## Manylion

Nododd rhai ymatebwyr ei bod yn anodd iddyn nhw wneud sylw ar hyn o bryd oherwydd diffyg manylion. Rydym yn deall y sylw hwn; ni fwriadwyd i'r amlinelliad gynnwys manylion o'r hyn a fyddai'n rhan o fanyleb gyflawn. Gobeithiwn y bydd yr holl wybodaeth sydd ei hangen ar randdeiliaid wedi'i chynnwys yn y manylebau llawn maes o law.



© WJEC CBAC Cyf.

# Adborth Pwnc-benodol

## Maes Dysgu a Phrofiad y Celfyddydau Mynegiannol

### TGAU Celf a Dylunio

Derbyniodd CBAC 38 o ymatebion, gyda dros hanner o'r ymatebwyr yn ateb ar ran ysgol, gyda'r mwyafrif yn nodi eu bod yn athrawon.

Cytunodd y mwyafrif o'r ymatebwyr â'r holl agweddau ar ein hamlinelliad o'r cymhwyster arfaethedig, gan nodi bod y strwythur a dull asesu arfaethedig yn briodol, bod dibenion yr unedau yn briodol ac yn ymgysylltu dysgwyr a hefyd yn bodloni diben a nodau'r cymhwyster, ac y bydd y cymhwyster arfaethedig yn cefnogi'r Cwricwlwm i Gymru.

Teimlai'r mwyafrif o'r ymatebwyr y bydd y cymhwyster yn hydrin i ddysgwyr a chanolfannau. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y pryderon a fynegwyd gan rai ymatebwyr o ran hydrinedd. Cynigiodd un neu ddau o'r ymatebwyr y dylid gosod terfynau ar yr amser a dreuliwyd neu faint o waith i'w gyflwyno ar gyfer y portffolio; fodd bynnag, ar ôl ymgynghori ymhellach â rhanddeiliaid drwy ein Grŵp Cynghori ar Ddatblygu, rydym wedi penderfynu peidio â gwneud hyn ond yn hytrach i gadw'r hyblygrwydd presennol. Fodd bynnag, rydym wedi gofyn i awduron ac adolygwyr ein manylebau ystyried llwyth gwaith dysgwyr wrth ddatblygu cynnwys y portffolio.

### TGAU Drama

Derbyniodd CBAC 24 o ymatebion, gyda'r mwyafrif o'r rheiny'n dod gan ymarferwyr mewn ysgol.

Cytunodd y mwyafrif o'r ymatebwyr bod strwythur a dull asesu'r cymhwyster arfaethedig yn briodol, bod dibenion yr uned yn briodol ac yn ymgysylltu dysgwyr ac yn bodloni diben a nodau'r cymhwyster, ac y bydd y cymhwyster arfaethedig yn cefnogi'r Cwricwlwm i Gymru. Ar y cyfan, roedd yr ymatebwyr yn cytuno neu'n rhannol gytuno y bydd y cymhwyster arfaethedig yn hydrin i'r canolfannau a'r dysgwyr fel ei gilydd. Croesawodd rhai o'r ymatebwyr strwythur y cymhwyster newydd ac roeddent yn teimlo bod y cydbwysedd rhwng theori ac ymarferol yn gweithio.

Hefyd, derbyniwyd sylwadau cadarnhaol ynglŷn â'r canlynol:

- y cynnig i ryddhau'r deunyddiau ar gyfer yr uned ddyfeisio ar ddechrau'r cwrs, yn hytrach nag ym Mlwyddyn 11
- y cyfle i gwblhau'r uned ddyfeisio ar adeg briodol yn ystod y ddwy flynedd
- yr hyblygrwydd a'r dewis o ran dewis testunau.

Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y pryderon canlynol:

- Nododd yr ymatebwyr eu bod yn pryderu ynghylch pwysoli'r uned arholiad mewn perthynas â'r unedau dyfeisio a pherfformio. Ni allwn fynd i'r afael â hyn gan ei fod yn adlewyrchu penderfyniad Cymwysterau Cymru; yn y Meini Prawf Cymeradwyo mae'n nodi bod yn rhaid asesu cyfanswm o 30% o'r cymhwyster drwy arholiad allanol digidol yn unig y mae'n rhaid i'r corff dyfarnu ei osod a'i farcio.



© WJEC CBAC Cyf.

- Mynegwyd pryderon ynghylch gwaith ysgrifenedig sy'n gysylltiedig ag agweddau ymarferol ar yr unedau dyfeisio a pherfformio. Yn y Meini Prawf Cymeradwyo mae'n nodi, fel rhan o'r uned ddyfeisio, bod yn rhaid i ddysgwyr gyflwyno log myfyriol mewn fformat nad yw'n cael ei ragnodi; bydd hyn yn orfodol i gyrraedd yr ystod lawn o farciau. Mae awduron ein manylebau yn ymwybodol o'r pryderon a fynegwyd yn yr ymgynghoriad. Felly, maen nhw'n gweithio i sicrhau nad yw'r log myfyriol yn atal creadigrwydd a brwdfrydedd dysgwyr yn yr uned ddyfeisio. O ganlyniad, rydym wedi dileu'r gofyniad am dasg werthuso annibynnol yn yr uned ddyfeisio. Cafodd y gofyniad hwn ei ddileu hefyd ar gyfer yr elfen Bwriadau Artistig; felly, nid ydym wedi cynnwys unrhyw waith ysgrifenedig ychwanegol yn yr uned berfformio.
- Nododd yr ymatebwyr bryderon ynghylch y gwaith heb ei baratoi (gweithiau heb eu paratoi) yn yr arholiad allanol. Yn y Meini Prawf Cymeradwyo mae'n nodi bod yn rhaid asesu 30% o'r cymhwyster drwy arholiad allanol y mae'n rhaid iddo gynnwys cwestiynau ar weithiau heb eu paratoi. Mae awduron ein manylebau yn edrych am gyfleoedd i ddefnyddio mathau gwahanol o gwestiynau a dulliau asesu digidol i gefnogi ac ychwanegu at yr agwedd hon ac i gefnogi'r Cwricwlwm i Gymru.

## TGAU Cerddoriaeth

Derbyniodd CBAC 37 o ymatebion, gyda hanner yr ymatebwyr yn ateb ar ran ysgol, gyda'r mwyafrif yn nodi eu bod yn athrawon.

Cytunodd y mwyafrif o'r ymatebwyr bod strwythur a dull asesu arfaethedig y cymhwyster yn briodol, bod dibenion yr uned yn briodol ac yn ymgysylltu dysgwyr ac yn bodloni diben a nodau'r cymhwyster, y bydd y cymhwyster arfaethedig yn cefnogi'r Cwricwlwm i Gymru ac y bydd y cymhwyster arfaethedig yn hydrin i ddysgwyr. Ar y cyfan roedd ymatebwyr yn cytuno neu'n rhannol gytuno y byddai'r cymhwyster arfaethedig yn hydrin i'r canolfannau.

Hefyd, derbyniwyd sylwadau cadarnhaol ynglŷn â'r canlynol:
- y cynnig i ryddhau'r briffiau cyfansoddi ar ddechrau'r cwrs, yn hytrach nag ym Mlwyddyn 11
- rhagnodi y gellid asesu'r unedau perfformio a chyfansoddi ar unrhyw bryd yn ystod y cwrs
- peidio â chynnwys unrhyw waith ysgrifenedig ychwanegol yn rhan o'r uned berfformio.

Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y pryderon canlynol:
- Nododd yr ymatebwyr eu pryder ynghylch pwysoli'r uned arholiad mewn perthynas â'r unedau perfformio a chyfansoddi. Ni allwn fynd i'r afael â hyn gan ei fod yn adlewyrchu penderfyniad Cymwysterau Cymru; yn y Meini Prawf Cymeradwyo mae'n nodi bod yn rhaid asesu cyfanswm o 35% o'r cymhwyster drwy arholiad allanol digidol yn unig y mae'n rhaid i'r corff dyfarnu ei osod a'i farcio.
- Mynegwyd pryderon ynghylch gwaith ysgrifenedig sy'n gysylltiedig â’r agweddau ymarferol ar y perfformio a chyfansoddi. Yn y Meini Prawf Cymeradwyo mae'n nodi, fel rhan o'r uned gyfansoddi, bod yn rhaid i ddysgwyr gyflwyno log myfyriol mewn fformat nad yw'n cael ei ragnodi; bydd hyn yn orfodol i gyrraedd yr ystod lawn o farciau. Mae awduron ein manylebau yn ymwybodol o'r pryderon a fynegwyd yn yr ymgynghoriad ac yn gweithio i sicrhau nad yw'r log myfyriol yn atal creadigrwydd a brwdfrydedd dysgwyr yn yr uned gyfansoddi. Fel y nodwyd uchod, nid ydym wedi cynnwys unrhyw waith ysgrifenedig ychwanegol yn yr uned berfformio.
- Mynegwyd rhai pryderon hefyd ynghylch y defnydd o friffiau cyfansoddi. Yn y Meini Prawf Cymeradwyo mae'n nodi bod yn rhaid rhoi cyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio dealltwriaeth o'r broses greadigol i greu eu cerddoriaeth eu hunain ac i wireddu bwriadau artistig mewn ymateb i friffiau. Mae arweiniad wedi'i roi i awduron ein manylebau o ran y defnydd o friffiau cyfansoddi er mwyn sicrhau bod y dewis a'r hyblygrwydd gofynnol ar gael i ddysgwyr yn yr uned hon.



© WJEC CBAC Cyf.

# Maes Dysgu a Phrofiad Y Dyniaethau

## TGAU Busnes

Derbyniodd CBAC 36 o ymatebion, gyda'r mwyafrif o'r ymatebwyr yn ateb ar ran ysgol a'r rhan fwyaf yn nodi eu bod yn athrawon.

Cytunodd y mwyafrif o'r ymatebwyr y bydd y cymhwyster arfaethedig yn cefnogi'r Cwricwlwm i Gymru. Ar y cyfan roedd ymatebwyr yn cytuno neu'n rhannol gytuno bod y dull asesu arfaethedig yn briodol, bod dibenion yr uned yn briodol ac yn ymgysylltu dysgwyr ac yn bodloni diben a nodau'r cymhwyster, a bod y dull asesu yn briodol.

Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y pryderon canlynol:

- Mynegwyd pryderon ynghylch nifer yr asesiadau ar gyfer y cymhwyster a nifer yr asesiadau di-arholiad yn benodol. Ni allwn fynd i'r afael â'r pwyntiau hyn gan eu bod yn adlewyrchu penderfyniadau Cymwysterau Cymru; mae'r Meini Prawf Cymeradwyo yn nodi bod yn rhaid cael dau asesiad arholiad a dau asesiad di-arholiad a bod yr asesiadau di-arholiad yn cyfrif am 40% o'r cymhwyster.
- Teimlai rhai ymatebwyr bod yr amser oedd wedi'i ddyrannu ar gyfer tasgau'r asesiad di-arholiad yn rhy fyr. O ganlyniad, rydym wedi cynyddu hyd yr asesiad o bedair awr i bump awr yn Uned 2 ac o chwe awr i wyth awr yn Uned 4.
- Mynegwyd rhai pryderon ynghylch y diffyg canolbwyntio ar hanfodion a theori busnes. Nid dyna oedd ein bwriad. O ganlyniad, rydym wedi ychwanegu hanfodion busnes at ddiben Uned 1 ac wedi ychwanegu mwy o ffocws busnes at ddiben Uned 3. Mae enw Uned 3 wedi'i newid hefyd i 'Strategaethau Busnes ar gyfer Llwyddo'. Gwnaed hyn i bwysleisio y bydd y cwrs yn canolbwyntio ar gysyniadau a theori busnes penodol.
- Mynegodd rhai ymatebwyr bryder ynghylch faint o gynnwys y gallai fod angen ymdrin ag ef yn y nifer o oriau addysgu sydd ar gael. Mae awduron ein manylebau yn cael eu harwain ynglŷn â nifer yr Oriau Dysgu dan Arweiniad i bob uned er mwyn sicrhau bod modd addysgu'r cynnwys yn ystod y cyfnod hwnnw. Byddwn yn canolbwyntio hefyd ar adolygu'r hydrinedd sy'n gysylltiedig â'r agwedd hon.
- Mynegwyd rhai pryderon ynghylch casglu data am fusnesau lleol. Mae Meini Prawf Cymeradwyo Cymwysterau Cymru yn nodi bod angen i ddysgwyr ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o wahanol fodelau busnes, technoleg a rôl menter ac entrepreneuriaeth o bersbectif lleol. Mae'n nodi yn ogystal bod yn rhaid i ddysgwyr ddatblygu 'dealltwriaeth o brosesau, cymhellion a chanlyniadau busnes yn eu cynefin'. Fodd bynnag, bwriadwn gefnogi canolfannau drwy ddarparu canllawiau ar gyfer dethol busnes addas.
- Teimlai rhai ymatebwyr y byddai'n fwy priodol galw Uned 4 yn uned synoptig. O ganlyniad, mae'r amlinelliad wedi'i ddiweddaru i gyfleu hyn.

## TGAU Daearyddiaeth

Derbyniodd CBAC 77 o ymatebion, gyda'r mwyafrif o'r ymatebwyr yn ateb ar ran ysgol.

Cytunodd y mwyafrif o'r ymatebwyr bod dibenion yr uned yn briodol ac yn ymgysylltu dysgwyr ac y bydd y cymhwyster arfaethedig yn cefnogi'r Cwricwlwm i Gymru. Ar y cyfan roedd ymatebwyr yn cytuno neu'n rhannol gytuno bod dibenion yr uned yn bodloni diben a nodau'r cymhwyster, a bod strwythur a dull asesu'r cymhwyster yn briodol.



© WJEC CBAC Cyf.

Gwnaeth rhai ymatebwyr y sylw y byddai'r cymhwyster arfaethedig yn helpu i ddatblygu dinasyddion moesegol a gwybodus a nododd eraill eu bod yn hoffi'r ffordd y rhannwyd y cynnwys yn themâu.

Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y pryderon canlynol:

- Mynegwyd rhai pryderon ynghylch nifer yr asesiadau di-arholiad. Ni allwn fynd i'r afael â hyn gan ei fod yn adlewyrchu penderfyniad Cymwysterau Cymru; yn y Meini Prawf Cymeradwyo mae'n nodi bod yn rhaid cael dau asesiad di-arholiad sy'n cyfrif am 40% o'r cymhwyster.
- Mynegwyd rhai pryderon ynghylch marcio'r gwaith maes yn fewnol. Yn y Meini Prawf Cymeradwyo mae'n nodi bod yn rhaid i'r ganolfan farcio un o'r asesiadau di-arholiad a CBAC i'w gymedroli. O ganlyniad, rydym bellach wedi penderfynu y bydd CBAC yn gosod ac yn marcio'r gwaith maes. Gan fod y Meini Prawf Cymeradwyo yn nodi bod yn rhaid i'r ganolfan farcio un o'r asesiadau di-arholiad a CBAC i'w gymedroli, bellach bydd canolfannau'n marcio'r Ymarferiad Gwneud Penderfyniadau a CBAC yn ei gymedroli; mae'r asesiad di-arholiad hwn yn 15% o'r cymhwyster ac felly'n llai na'r asesiad di-arholiad gwaith maes sy'n 25%.
- Roedd rhai o'r ymatebwyr am weld pwysoli uwch am yr Ymarfer Gwneud Penderfyniadau. Fodd bynnag, ar ôl trafod â'n Grŵp Cynghori ar Ddatblygu Cymwysterau Daearyddiaeth, nid ydym wedi cynyddu'r pwysoli gan y byddai'n rhaid i ni wedyn ostwng pwysoli'r gwaith maes; nid oedd y Grŵp o blaid gwneud hyn oherwydd yr amser mae'n ei gymryd i ddysgwyr gwblhau'r asesiad di-arholiad gwaith maes.
- Mynegwyd rhai pryderon ynghylch faint o gynnwys y byddai angen ymdrin ag ef yn ôl nifer yr oriau addysgu sydd ar gael. Mae arweiniad yn cael ei roi i awduron ein manylebau o ran nifer yr Oriau Dysgu dan Arweiniad i bob uned er mwyn sicrhau bod modd addysgu'r cynnwys yn yr amser sydd ar gael.
- Mynegwyd rhai pryderon y gallai fod anghydbwysedd posibl rhwng daearyddiaeth ddynol a daearyddiaeth ffisegol. Nid dyna oedd ein bwriad. O ganlyniad, rydym wedi newid teitl Uned 1 i 'Ein byd ffisegol a dynol'. Rydym wedi diweddaru geiriad y ddogfen amlinellol i bwysleisio bod y ddaearyddiaeth ffisegol a'r ddaearyddiaeth ddynol yn gytbwys. Mae'r meysydd posibl i ymdrin â nhw wedi'u diweddaru yn ogystal i adlewyrchu agweddau mwy ffisegol.
- Yn nhermau gwaith maes, roedd gan rai ymatebwyr bryderon na fyddai asesiad y gwaith maes yn ystyried y broses ymholi gyfan. Nid dyna yw ein bwriad. Mynegwyd pryder gan rai ymatebwyr hefyd am y pwyslais ar yr ardal leol. O ganlyniad, rydym wedi dileu'r cyfeiriad at archwilio gwaith maes yn ardal leol y dysgwyr, fel bod ardal ehangach ar gael i'w harchwilio gan y dysgwyr. Fodd bynnag, mae'n debygol y cynhelir y rhan fwyaf o'r ymholiadau gwaith maes yn yr ardal leol.
- Mynegwyd rhai pryderon ynghylch hyd arfaethedig yr arholiadau. Bwriadwn archwilio hyn ymhellach yng ngham nesaf y gwaith datblygu gan ystyried tegwch, y gallu i wahaniaethu, ymdriniaeth a'r angen am amser darllen.
- Bydd mater cyflwyno digidol yn cael ei archwilio ymhellach yn ystod cam nesaf y gwaith datblygu, yn dilyn adborth.

## TGAU Hanes

Derbyniodd CBAC 74 o ymatebion, gyda hanner yr ymatebwyr yn ateb ar ran ysgol, gyda'r mwyafrif yn nodi eu bod yn athrawon.

Cytunodd y mwyafrif o'r ymatebwyr y bydd y cymhwyster arfaethedig yn cefnogi'r Cwricwlwm i Gymru. Ar y cyfan roedd ymatebwyr yn cytuno neu'n rhannol gytuno bod y dull asesu arfaethedig yn briodol a bod dibenion yr uned yn briodol, yn ymgysylltu dysgwyr ac yn bodloni diben a nodau'r cymhwyster.


© WJEC CBAC Cyf.

Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y pryderon canlynol:

- Roedd rhai ymatebwyr yn pryderu na fyddai hanes canoloesol yn ddiddorol i ddysgwyr. Mynegwyd pryder cyffredinol gan ymatebwyr eraill ynghylch y cyfnodau amser y byddai dysgwyr yn eu hastudio, gan awgrymu y gallai hyn arwain at ddiffyg ymgysylltu. Ni allwn fynd i'r afael â hyn gan ei fod yn adlewyrchu penderfyniad Cymwysterau Cymru; yn y Meini Prawf Cymeradwyo mae'n nodi bod yn rhaid rhoi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos gwybodaeth hanesyddol a dealltwriaeth o wahanol gyfnodau hanesyddol (rhaid i hyn gynnwys hanes canoloesol, modern cynnar, a modern).
- Cymysg oedd yr ymateb a gafwyd i faint o hanes Cymru oedd yna. Dywedodd rhai ymatebwyr bod gormod o bwyslais ar hanes Cymru (Uned 1 – Astudiaeth fanwl ar hanes Cymru ac Uned 4 – Cymru a Phrydain/y DU). Roedd eraill yn croesawu'r angen i ganolbwyntio fel hyn, gan nodi eu bod yn teimlo bod yma gyfatebiaeth â'r Cwricwlwm i Gymru. O ganlyniad, rydym wedi diweddaru'r ddogfen amlinellol i gynnig bod Uned 4 yn rhoi cyfle i ddysgwyr ganolbwyntio eu hastudiaethau ar leoliad o'u dewis nhw mewn ardal benodol. Mae Uned 4 wedi'i hailenwi hefyd; erbyn hyn yr enw ar yr uned hon fydd 'Pobl a chynnydd?'. Bydd Uned 1 yn parhau i ganolbwyntio ar hanes Cymru yn benodol, yn unol â'r Meini Prawf Cymeradwyo, sy'n nodi bod yn rhaid rhoi cyfle i ddysgwyr ddangos eu gwybodaeth a dealltwriaeth o hanes Cymru, ynghyd â Chymru a'r persbectif Cymreig.
- Cafodd y cynnydd mewn asesu di-arholiad ei groesawu gan rai, ond mynegodd eraill bryder y gallai ddibrisio'r cymhwyster. Mynegwyd pryderon ychwanegol ynghylch effaith negyddol bosibl cynyddu'r asesiad di-arholiad ar lwyth gwaith athrawon. Ni allwn fynd i'r afael â hyn gan ei fod yn adlewyrchu penderfyniad Cymwysterau Cymru; yn y Meini Prawf Cymeradwyo mae'n nodi bod yn rhaid cael dau asesiad di-arholiad sy'n cyfrif am 40% o'r cymhwyster, y mae'n rhaid i un gael ei farcio gan y ganolfan a'r llall i'w gymedroli'n allanol gan y corff dyfarnu.
- Gwnaeth rhai ymatebwyr gwestiynu pam mae pwysoli arholiadau Uned 1 ac Uned 3 yr un peth er gwaetha'r ffaith eu bod yn debygol o fod yn wahanol o ran hyd. Yn ychwanegol, mynegodd rhai ymatebwyr y farn nad oedd dyrannu un awr ar gyfer yr arholiad Uned 1 yn ddigon. Mae'r adborth hwn wedi'i ystyried gennym ond daethom i'r casgliad bod amrywio'r amseroedd sydd wedi'u dyrannu i bob uned yn cael ei ystyried yn briodol oherwydd bod yr unedau'n canolbwyntio ar bethau gwahanol. Mae Uned 1 yn canolbwyntio ar fater penodol yn hanes Cymru, tra bod Uned 3 yn edrych yn ehangach ar fater mewn hanes dros gyfnod estynedig. Felly, credwn fod yr amser a ganiateir ar gyfer pob arholiad yn addas. Defnyddir y Raddfa Marciau Unffurf i sicrhau pwysoli teg ar gyfer y ddwy uned.
- Mynegodd rhai ymatebwyr bryder ynghylch faint o gynnwys y gallai fod yn bosibl ymdrin ag ef yn ystod nifer yr oriau addysgu sydd ar gael. Mae arweiniad yn cael ei roi i awduron ein manylebau o ran nifer yr Oriau Dysgu dan Arweiniad i bob uned er mwyn sicrhau bod modd addysgu'r cynnwys yn yr amser sydd ar gael.
- Lefel isel o ymatebwyr oedd yn cytuno y byddai'r cymhwyster yn hydrin i ddysgwyr a chanolfannau. O ganlyniad ailedrychwyd ar Uned 4, ac mae'r asesiad di-arholiad wedi'i symleiddio a'i fyrhau. Mae'r fersiwn diwygiedig o'r asesiad di-arholiad yn caniatáu i ganolfannau ddyfeisio teitl neu deitlau o fewn paramedrau gosod, gan sicrhau bod yr ymdriniaeth ehangach o'r cyfnod i'w astudio yn fwy hydrin.

## TGAU Astudiaethau Crefyddol

Derbyniodd CBAC 90 o ymatebion, gyda hanner yr ymatebwyr yn ateb ar ran ysgol, gyda'r mwyafrif yn nodi eu bod yn athrawon.

Cytunodd y mwyafrif o'r ymatebwyr bod dibenion yr uned yn briodol, yn ymgysylltu dysgwyr ac yn bodloni diben a nodau'r cymhwyster, ac y bydd y cymhwyster arfaethedig yn cefnogi'r Cwricwlwm i Gymru.



© WJEC CBAC Cyf.

Ar y cyfan roedd ymatebwyr yn cytuno neu'n rhannol gytuno bod strwythur a dull asesu arfaethedig y cymhwyster yn briodol, a bod y cymhwyster arfaethedig yn hydrin i ddysgwyr.

Teimlai rhai ymatebwyr bod cyflwyno asesiad di-arholiad yn rhywbeth calonogol ac y byddai'n helpu pob dysgwr o bob gallu. I rai roedd cyflwyno asesiad di-arholiad mewn Astudiaethau Crefyddol yn rhywbeth cadarnhaol gan ei fod yn gadael i'r pwnc hwn gyfateb i'r cymwysterau eraill ym maes y dyniaethau ac yn cynnig cyfle cyfartal ar draws pynciau'r dyniaethau. Teimlai rhai ymatebwyr bod y cymhwyster newydd yn addas i'r Cwricwlwm i Gymru gan ei fod yn cynnwys cyfleoedd i ddysgwyr archwilio eu cynefin ac yn cynnig cyfleoedd i drafod a gofyn cwestiynau. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y pryderon canlynol:

- Mynegwyd rhai pryderon ynghylch pwyslais canfyddedig ar gredoau crefyddol o'u cyferbynnu â chredoau anghrefyddol ac argyhoeddiadau athronyddol. Nid dyna'r bwriad – bydd y cymhwyster yn rhoi gwerth cyfartal ar gredoau crefyddol ac ar gredoau anghrefyddol ac argyhoeddiadau athronyddol. Fodd bynnag, mae'r dysgeidiaethau ac arferion sy'n gysylltiedig â rhai systemau cred yn fwy penodol (er enghraifft, mewn perthynas â bywyd ar ôl marwolaeth) a bydd cydbwysedd y cynnwys yn y cymhwyster newydd yn adlewyrchu hyn. Mae'r amlinelliad wedi'i ddiwygio i adlewyrchu ein bwriad; rydym wedi trafod ein bwriad a'n geiriad gyda Cymwysterau Cymru sydd wedi cytuno bod hyn yn adlewyrchu eu bwriadau ar gyfer y cymhwyster yn ôl y disgrifiad yn y Meini Prawf Cymeradwyo.
- Yn gysylltiedig â hyn, cafodd rhai pryderon eu mynegi ynghylch yr opsiynau a bod diffyg eglurder o ran y credoau crefyddol ac anghrefyddol ac argyhoeddiadau athronyddol y gallai dysgwyr eu hastudio. Ym Meini Prawf Cymeradwyo Cymwysterau Cymru mae'n nodi bod yn rhaid i ddysgwyr ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o Gristnogaeth (neu Gristnogaeth Gatholig) ac o leiaf un grefydd arall i'w dewis o'r rhestr ganlynol: Bwdhaeth, Hindŵaeth, Islam, Iddewiaeth a Sikhiaeth (Sikhi). Rhaid rhoi cyfle hefyd i ddysgwyr ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o gredoau anghrefyddol ac argyhoeddiadau athronyddol, megis anffyddiaeth a dyneiddiaeth. O ganlyniad, rydym wedi newid y geiriad yn ein dogfen amlinellol i adlewyrchu'r Meini Prawf Cymeradwyo yn glir, gan sicrhau nad oes unrhyw ddryswch.
- Mynegwyd rhai pryderon ynghylch y ffaith nad oedd y cymhwyster yn bodloni'r gofynion statudol o ran Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg. Fel yr esboniodd Cymwysterau Cymru yn ei adroddiad ar ddeilliannau'r ymgynghoriad ar y Meini Prawf Cymeradwyo (https://cymwysterau.cymru/media/s43ni1rx/deilliannau-ymgynghoriad-fesul-pwnc.pdf), nid oes bwriad i'r TGAU Astudiaethau Crefyddol ymdrin â holl agweddau'r canllawiau Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (RVE).
- Er bod rhai ymatebwyr wedi croesawu'r cynnydd mewn asesu di-arholiad, mynegodd eraill bryder bod y pwysoli'n drwm ac y byddai'n effeithio ar lwyth gwaith athrawon. Ni allwn fynd i'r afael â hyn gan ei fod yn adlewyrchu penderfyniad Cymwysterau Cymru; yn y Meini Prawf Cymeradwyo mae'n nodi bod yn rhaid cael dau asesiad di-arholiad sy'n cyfrif am 40% o'r cymhwyster, y mae rhaid i un gael ei farcio'n fewnol gan y ganolfan gyda'r llall i'w gymedroli'n allanol gan y corff dyfarnu. Mynegwyd rhai pryderon ynghylch faint o gynnwys i ymdrin ag ef o ran yr amser addysgu sydd ar gael. Mae arweiniad yn cael ei roi i awduron ein manylebau o ran nifer yr Oriau Dysgu dan Arweiniad i bob uned er mwyn sicrhau bod modd addysgu'r cynnwys yn yr amser sydd ar gael.
- Mynegwyd rhai pryderon ynghylch y cyfeiriad at gysyniadau yn ein hamlinelliad gyda rhai ymatebwyr yn nodi bod ein diagramau yn ddryslyd. Nid dyna oedd ein bwriad ac o ganlyniad, mae'r diagramau wedi'u dileu o'n hamlinelliadau. Rydym yn hyderus bod y cysyniadau'n sail i'r cymhwyster Astudiaethau Crefyddol yr ydym yn ei ddatblygu.



© WJEC CBAC Cyf.

- O ran yr unedau penodol, roedd rhai o'r ymatebwyr yn teimlo bod testunau'n cael eu hailadrodd h.y. hawliau dynol, gyda rhai ohonynt yn cwestiynu pam roedd cymhwyster astudiaethau crefyddol yn addysgu hawliau dynol. Mae Uned 3 – Profiad dynol a'r byd yn canolbwyntio ar sut mae pobl â gwahanol gredoau crefyddol ac/neu anghrefyddol yn ymwneud â materion amgylcheddol, yn Uned 4 – Hawliau dynol fodd bynnag mae'r canolbwyntio ar faterion moesegol/moesol, hawliau dynol o safbwyntiau crefyddol ac anghrefyddol. Yn hanesyddol, mae hawliau dynol wedi bod yn faes sy'n cael ei astudio yn rhan o bwnc astudiaethau crefyddol, ac yn y Meini Prawf Cymeradwyo mae'n nodi bod yn rhaid archwilio hawliau dynol drwy lens pwnc unigryw astudiaethau crefyddol..

# Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Llesiant

## TGAU Bwyd a Maeth

Derbyniodd CBAC 21 o ymatebion, gyda'r mwyafrif o'r rheiny'n dod gan ymarferwyr mewn ysgol.

Cytunodd y mwyafrif o'r ymatebwyr bod y dull asesu arfaethedig yn briodol, bod dibenion yr unedau'n briodol ac yn ymgysylltu dysgwyr ac yn bodloni diben a nodau'r cymhwyster, ac y bydd y cymhwyster arfaethedig yn cefnogi'r Cwricwlwm i Gymru. Ar y cyfan roedd ymatebwyr yn cytuno neu'n rhannol gytuno bod strwythur arfaethedig y cymhwyster yn briodol ac y bydd y cymhwyster arfaethedig yn hydrin i ganolfannau a dysgwyr fel ei gilydd.

Mynegodd rhai ymatebwyr foddhad â'r dull cytbwys o ymdrin ag elfennau damcaniaethol ac ymarferol. Nododd rhai ymatebwyr bod y cymhwyster yn dangos dilyniant clir i ddysgwyr. Cawsom adborth cadarnhaol hefyd mewn perthynas â'r cysylltiadau ag adnoddau naturiol a'r amgylchedd. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y pryderon canlynol:

- Mynegodd rhai ymatebwyr bryderon ynghylch dyddiadau rhyddhau'r tasgau di-arholiad. Yn yr amlinelliad drafft, awgrymwyd y byddem yn rhyddhau tasgau asesiadau di-arholiad Uned 2 a 3 ym mis Medi yn yr ail flwyddyn o astudio. Teimlai rhai ymatebwyr y byddai hyn yn rhoi llai o amser i baratoi i'r dysgwyr a'r athrawon. O ganlyniad, rydym felly wedi penderfynu newid dyddiadau rhyddhau Uned 2 a 3 o'r tasgau asesiad di-arholiad i fis Mai blwyddyn gyntaf yr astudio, gan roi mwy o amser i ddysgwyr ac athrawon baratoi.
- Mynegwyd pryderon ynghylch y posibilrwydd o wastraff bwyd, yn gysylltiedig ag Uned 2 yn arbennig gan fod rhai ymatebwyr yn teimlo bod natur arbrofol yr asesiad yn arwain at daflu bwyd i ffwrdd yn aml. O ganlyniad, rydym wedi diweddaru'r ddogfen amlinellol fel y gall canolfannau benderfynu a yw'r arbrofion bwyd i'w cynnal gan ddysgwyr unigol neu grwpiau o ddysgwyr ac a yw'r athro yn cyflawni elfen reoli'r ymchwiliad bwyd ar gyfer y dosbarth ai peidio. Bydd yn rhaid i bob dysgwr gwblhau tystiolaeth ysgrifenedig yn unigol i sicrhau dilysrwydd yr asesiad di-arholiad.
- Teimlai rhai ymatebwyr nad oedd yr ymchwiliad bwyd yn boblogaidd gyda dysgwyr ac y byddai disgyblion is eu gallu yn cael anhawster â hyn. Ni allwn fynd i'r afael â'r pwyntiau hyn gan eu bod yn adlewyrchu penderfyniadau Cymwysterau Cymru; yn y Meini Prawf Cymeradwyo mae'n nodi bod yn rhaid cael ymchwiliad bwyd sy'n cyfrif am 20% o'r cymhwyster. Bydd yr awduron sydd gennym yn datblygu'r cymhwyster newydd yn ystyried pob un o'r dysgwyr TGAU wrth ysgrifennu cynnwys y cymhwyster Bwyd a Maeth er mwyn sicrhau bod y cynnwys yn hygyrch.



© WJEC CBAC Cyf.

# Maes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

## Lefel 2 Dyfarniad mewn Cymraeg Craidd Ychwanegol

Derbyniodd CBAC 21 o ymatebion, gyda'r mwyafrif o'r rheiny'n dod gan ymarferwyr mewn ysgol.

Ar y cyfan roedd ymatebwyr yn cytuno neu'n rhannol gytuno bod strwythur a dull asesu arfaethedig y cymhwyster yn briodol, bod dibenion yr unedau'n bridol ac yn ymgysylltu dysgwyr ac yn bodloni diben a nodau'r cymhwyster, ac y bydd y cymhwyster arfaethedig yn cefnogi'r Cwricwlwm i Gymru.

Hefyd, derbyniwyd sylwadau cadarnhaol ynglŷn â'r canlynol:

- y pwyslais ar ddeall a defnyddio'r iaith mewn modd digymell a hyderus
- y cyfle i archwilio diwylliant Cymru, ei hanes a'i phobl yn y byd ehangach
- yr hyblygrwydd a'r dewis a gynigir.

Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y canlynol:

- Mynegodd rhai ymatebwyr bryder ynghylch faint o gynnwys y gallai fod angen ymdrin ag ef yn y nifer o oriau addysgu sydd ar gael. Mae arweiniad yn cael ei roi i awduron ein manylebau o ran nifer yr Oriau Dysgu dan Arweiniad i bob uned er mwyn sicrhau bod modd addysgu'r cynnwys yn yr amser sydd ar gael.
- Mynegwyd pryder ynghylch lefel y rheolaeth ar gyfer Uned 2. Credwn fod lefel isel o reolaeth yn briodol yng nghyd-destun y cymhwyster hwn i helpu i sicrhau profiad dilys i ddysgwyr. Bydd yn sicrhau gofynion y Meini Prawf Cymeradwyo mewn ffordd ddilys bod yn rhaid i ddysgwyr ddatblygu eu sgiliau o ddarllen amrywiaeth o destunau a chyfryngau, deall a dehongli eu hystyr a'u neges. Hefyd, bydd yn caniatáu iddyn nhw astudio "Cymraeg a fi" ymhellach, gan adeiladu ar y sgiliau a'r wybodaeth a ddatblygwyd yn rhan o'r cymhwyster Cymraeg Craidd ar yr un pryd.

## TGAU Cymraeg Iaith a Llenyddiaeth (Gradd Unigol a Dwyradd)

Derbyniodd CBAC 47 o ymatebion, gyda mwy na hanner ohonyn nhw'n dod gan ymarferwyr mewn ysgol.

Ar y cyfan roedd ymatebwyr yn cytuno neu'n rhannol gytuno bod y dull asesu arfaethedig yn briodol; bod dibenion yr unedau'n briodol, yn ymgysylltu dysgwyr ac yn bodloni diben a nodau'r cymhwyster; y bydd y cymhwyster arfaethedig yn cefnogi'r Cwricwlwm i Gymru; y bydd y cymhwyster arfaethedig yn hydrin i ddysgwyr a bod y mathau o destun yn briodol.

Cafwyd sylwadau cadarnhaol gan yr ymatebwyr ynghylch:

- cynnwys tasg ysgrifennu creadigol yn yr asesiad di-arholiad
- dewis o bethau i ganolbwyntio arnyn nhw yn yr unedau unigol
- cynnwys podlediadau fel modd o gyflwyno yn yr asesiadau llafar.



© WJEC CBAC Cyf.

Cafodd elfennau eraill o’r cymhwyster arfaethedig eu derbyn yn dda ar y cyfan; fodd bynnag, mynegwyd pryderon gan rai ymatebwyr hefyd. Mae’r rhain yn cynnwys:

- Rhyddid i ddewis o ran y testun gweledol/barddoniaeth yn Uned 2 ac Uned 3. Er bod yr hyblygrwydd a gynigir wedi'i groesawu gan y rhan fwyaf o'r ymatebwyr, mynegwyd pryderon gan eraill ynghylch dibynadwyedd yr asesu. Yn yr unedau hyn, mae awduron ein manylebau wedi derbyn cyfarwyddyd i gynnig arweiniad clir ynghylch testunau addas/amrediad o gerddi er mwyn sicrhau bod y canolfannau'n deall pa ddewisiadau maen nhw'n eu gwneud a fydd yn arwain at asesiad dibynadwy.
- Cyfuno iaith a llenyddiaeth mewn unedau unigol. Eto, roedd rhai ymatebwyr yn croesawu'r cynnig hwn ac o'r farn ei fod yn ddatblygiad allweddol oedd yn gysylltiedig ag ethos y Cwricwlwm i Gymru. Mynegodd ymatebwyr eraill bryderon ynghylch y ffaith nad yw astudio llenyddiaeth yn addas nac yn berthnasol i rai dysgwyr. Fodd bynnag, mae Meini Prawf Cymeradwyo Cymwysterau Cymru yn nodi bod yn rhaid i'r dyfarniadau Gradd Unigol a Dwyradd gynnwys rhyddiaith ffuglennol naratif a llenyddiaeth weledol, amrywiaeth o gerddi a thestunau ffeithiol.

Rydym hefyd yn cydnabod y pryderon canlynol:

- Nododd rhai ymatebwyr fod trafod elfennau oedd yn gysylltiedig â ffilm yn rhan o astudiaeth o destun gweledol yn rhywbeth tebycach i astudiaeth yn y maes Astudio'r Cyfryngau yn hytrach na'r Gymraeg. Fodd bynnag, teimlwyd yn ein Grŵp Cynghori ar Ddatblygu Cymwysterau bod yr elfennau hyn wedi hen ennill eu plwyf erbyn hyn yn y cymhwyster hwn a'u bod yn cefnogi dilyniant i astudiaeth ôl-16.
- Mynegwyd pryderon hefyd ynghylch cysylltu straeon byrion ag arholiad Uned 6 y Dwyradd, gyda rhai ohonyn nhw'n nodi bod y genre hwn yn anniddorol ac yn amherthnasol i ddysgwyr. Rhaid i ni barchu gofynion y Meini Prawf Cymeradwyo wrth benderfynu pa destunau i ganolbwyntio arnyn nhw ar gyfer pob uned a sicrhau hefyd ein bod yn bodloni'r holl feini prawf ar draws y cymhwyster yn gyffredinol. Mae awdur ein manyleb ar gyfer yr uned hon yn ymwybodol o'r pryderon a byddwn yn anelu at gynnwys ysgrifennu sy'n cynrychioli persbectifau amrywiol gan adlewyrchu natur amrywiol dinasyddiaeth a diwylliannau Cymru er mwyn i'r uned hon fod yn ddiddorol ac yn berthnasol i ddysgwyr.

## TGAU Cymraeg Craidd

Derbyniodd CBAC 47 o ymatebion, gyda mwy na hanner ohonyn nhw'n dod gan ymarferwyr mewn ysgol.

Ar y cyfan roedd ymatebwyr yn cytuno neu'n rhannol gytuno bod dibenion yr uned yn briodol, yn ymgysylltu dysgwyr ac yn bodloni diben a nodau'r cymhwyster, ac y bydd y cymhwyster arfaethedig yn cefnogi'r Cwricwlwm i Gymru.

Hefyd, derbyniwyd sylwadau cadarnhaol ynglŷn â'r canlynol:

- y pwyslais ar ddeall a defnyddio'r iaith mewn modd digymell a hyderus
- pwysoli'r tasgau
- y cyfle i bwysleisio diwylliant, hanes a phobl Cymru yn y byd ehangach.

Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y canlynol:

- Mynegwyd pryderon ynghylch faint o waith y bydd y ganolfan yn ei farcio. Ni allwn fynd i'r afael â'r pwyntiau hyn gan eu bod yn adlewyrchu penderfyniadau Cymwysterau Cymru; yn y Meini Prawf Cymeradwyo mae'n nodi y bydd 50% o'r cymhwyster yn cael ei asesu drwy asesiad di-arholiad a'i farcio gan y ganolfan.


© WJEC CBAC Cyf.

- Mynegodd ymatebwyr bryderon ynghylch cwblhau a chyflwyno'r holl waith yn ystod blwyddyn olaf y cwrs. Ni allwn fynd i'r afael â'r pwyntiau hyn gan eu bod yn adlewyrchu penderfyniadau Cymwysterau Cymru; yn y Meini Prawf Cymeradwyo mae'n nodi bod hwn yn gymhwyster llinol, a bod yn rhaid i'r asesiad ddigwydd ym mlwyddyn olaf y cwrs. Ar sail pryderon ynghylch llwyth gwaith athrawon a dysgwyr ac er mwyn sicrhau hydrinedd, rydym wedi gwasgaru'r asesiadau di-arholiad ar draws tymhorau'r Hydref a'r Gwanwyn.
- Mynegwyd pryderon ynghylch gofyn i ddysgwyr drawsieithu. Fel y nodwyd yn y Meini Prawf Cymeradwyo, rhaid i'r deunyddiau asesu a/neu'r deunyddiau ysgogi roi cyfle i ddysgwyr drawsieithu. Fodd bynnag, oherwydd yr adborth a gafwyd, mae'r dasg drawsieithu wedi'i symud o Uned 4 (Darllen ac Ysgrifennu - creadigol) i Uned 3 (Darllen ac Ysgrifennu - ffurfiol). Bydd gwneud y newid hwn yn caniatáu i'r dasg drawsieithu fod yn rhywbeth sy'n fwy dilys a deniadol i ddysgwyr, ac yn eu paratoi'n well ar gyfer y byd gwaith a thu hwnt.
- Mynegodd rhai ymatebwyr bryder ynghylch faint o gynnwys y gallai fod angen ymdrin ag ef yn y nifer o oriau addysgu sydd ar gael. Mae arweiniad yn cael ei roi i awduron ein manylebau o ran nifer yr Oriau Dysgu dan Arweiniad i bob uned er mwyn sicrhau bod modd addysgu'r cynnwys yn yr amser sydd ar gael.
- Mynegwyd pryderon ynghylch hydrinedd Uned 2 fel tasg unigol. O ganlyniad, rydym wedi newid y dasg hon i fod yn dasg grŵp i helpu'r canolfannau â'r elfen hydrinedd.
- Mynegodd rhai ymatebwyr bryderon ynghylch y cyfleoedd i ddysgwyr astudio ac ymgysylltu ag amrywiaeth o weithiau llenyddol. Mewn ymateb, rydym yn archwilio cyfleoedd i ychwanegu gwaith gosod at Uned 2 ac Uned 4. Byddai hyn yn helpu i sicrhau bod amrywiaeth o lenyddiaeth yn cael ei hastudio a hefyd yn annog hyblygrwydd a dewis i'r canolfannau o ran termau, themâu ac amrywiaeth. Rydym hefyd yn ystyried cyfleoedd i gomisiynu gwaith a fydd yn bodloni gofynion dysgwyr a'r Cwricwlwm newydd i Gymru.

## TGAU Saesneg Iaith a Llenyddiaeth (Gradd Unigol a Dwyradd)

Derbyniodd CBAC 164 o ymatebion, gyda hanner yr ymatebwyr yn ateb ar ran ysgol, gyda'r mwyafrif yn nodi eu bod yn athrawon.

Ar y cyfan roedd ymatebwyr yn cytuno neu'n rhannol gytuno bod dibenion yr uned yn briodol, yn ymgysylltu dysgwyr ac yn bodloni diben a nodau'r cymhwyster, ac y bydd y cymhwyster arfaethedig yn cefnogi'r Cwricwlwm i Gymru.

Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y pryderon canlynol:

- Nid oedd rhai ymatebwyr yn cytuno â chyfuno'r Iaith a Llenyddiaeth, y rhannu'n ddyfarniad Gradd Unigol a Dwyradd, na mynd i lawr i ddau amcan asesu. Ni allwn fynd i'r afael â'r pwyntiau hyn gan eu bod yn adlewyrchu penderfyniadau Cymwysterau Cymru a gyhoeddwyd yn eu Meini Prawf Cymeradwyo.
- Mynegwyd rhai pryderon ynghylch nifer yr unedau a'r ffaith bod strwythur cyffredinol y cymhwyster yn ormodol ac yn gymhleth. Gan ystyried bod y Meini Prawf Cymeradwyo yn gofyn am gael canran benodol o'r unedau gradd unigol a dwyradd yn gyffredin i'r ddau lwybr drwy'r cymhwyster, yna'r strwythur arfaethedig yw'r un mwyaf priodol i fodloni'r gofynion hyn.
- Mynegwyd pryderon ynghylch y canran o'r asesiad sy'n canolbwyntio ar dasgau llafaredd. Ni allwn fynd i'r afael â'r pwyntiau hyn gan eu bod yn adlewyrchu penderfyniadau Cymwysterau Cymru a gyhoeddwyd yn eu Meini Prawf Cymeradwyo.



© WJEC CBAC Cyf.

- Teimlai rhai ymatebwyr ein bod yn or-benodol o ran y testunau i'w hastudio. Rhaid i ni barchu gofynion y Meini Prawf Cymeradwyo wrth benderfynu pa destunau i ganolbwyntio arnyn nhw ar gyfer pob uned a sicrhau hefyd ein bod yn bodloni'r holl feini prawf ar draws y cymhwyster yn gyffredinol. Ar gyfer Uned 2, rydym yn cynnig rhestr hir o tua 40 o destunau rhyddiaith ffuglennol naratif sydd yn ein barn ni'n cynnig dewis eang i'r canolfannau. Bwriadwn guradu blodeugerddi o farddoniaeth a thestunau ffeithiol i gefnogi athrawon o ran cyflwyno yn yr ystafell ddosbarth a hefyd i baratoi ar gyfer yr asesu – bydd y rhain yn berthnasol i'r unedau arholiad Unedau 1 a 6, ac i'r asesiad di-arholiad yn Unedau 3 a 5. Bydd y flodeugerdd yn sicrhau bod y galw a'r her yn cael eu hystyried mewn ffordd safonedig, gan olygu bod pob dysgwr yn cael profiad teg. Gall dysgwyr ategu testunau o'r flodeugerdd gyda'u dewisiadau eu hunain ac yn wir caiff hynny ei annog pan fyddant yn paratoi ar gyfer tasgau'r asesiadau di-arholiad yn Unedau 3 a 5.
- Mynegwyd pryderon ynghylch rheoli tasgau llafaredd, gyda llawer yn nodi bod tasgau llafaredd yn cymryd amser ac yn anodd eu gweinyddu. O ganlyniad uniongyrchol i'r adborth hwn, rydym wedi ailystyried rhai o'r unedau fel nad oes unrhyw un uned benodol yn canolbwyntio ar lafaredd yn unig. Credwn y bydd hyn yn arwain at y gallu i gynnal asesiadau llafaredd mewn ffordd fwy hydrin sy'n golygu bod modd i ddysgwyr ddefnyddio'r wybodaeth a'r sgiliau sydd ganddyn nhw o'r uned gyfan, yn hytrach na defnyddio tasgau llafaredd i asesu uned gyfan.
- Mae'r tasgau llafaredd ar gyfer yr unedau cyffredin wedi'u newid o ran ffocws yn ogystal. Yn ôl adborth, byddai ymateb llafar dadansoddol i farddoniaeth yn rhy heriol i lawer, y dysgwyr gallu is yn benodol. Penderfynwyd felly symud barddoniaeth i uned arholiad yn y Gradd Unigol, lle bydd myfyrwyr yn ymateb yn ysgrifenedig. Bellach bydd gan y dysgwyr hynny sy'n dilyn y Gradd Unigol y drafodaeth grŵp sy'n canolbwyntio ar destunau ffeithiol. O wneud hyn, ni fydd disgwyl bellach i ddysgwyr drafod materion sy'n berthnasol i'w hardal leol, ond bydd modd iddyn nhw siarad am faterion ehangach sydd o ddiddordeb iddyn nhw.
- Mynegodd rhai ymatebwyr y farn bod gormod o farddoniaeth yn y cymhwyster. Mae asesiadau sy'n seiliedig ar farddoniaeth i'w cael unwaith yn yr unedau cyffredinol ac unwaith mewn uned annibynnol ar gyfer y dwyradd. Yn y cymhwyster TGAU Llenyddiaeth Saesneg presennol mae angen asesu barddoniaeth mewn dwy uned: wrth gymharu dwy gerdd heb eu gweld yn Uned 1 ac Uned 3 mae angen cymharu dwy gerdd o bymtheg cerdd benodol sydd wedi'u rhestru i'w hastudio. At hynny, bydd natur y tasgau yn yr unedau gwahanol yn wahanol. Asesir dadansoddi/cymharu yn yr arholiad, gyda'r farddoniaeth i'w defnyddio fel cyfrwng ar gyfer y dasg llafaredd yn Uned 5, a fydd yn canolbwyntio ar drafod agweddau yn hytrach na dadansoddi llenyddol. Mae hyn yn golygu y bydd gan ddysgwyr y cyfle i ddefnyddio'r farddoniaeth a astudiwyd fel cyfrwng ar gyfer trafod sut mae agweddau wedi newid dros amser – gan fynd i'r afael ag AA2 – yn hytrach na chynnig dadansoddiad o'r testun (AA1).
- Teimlai llawer o'r ymatebwyr nad oedd Uned 5 y Dwyradd yn cydlynu. Mewn ymateb i hyn, mae tasgau'r asesiad wedi'u rhesymoli a'r uned bellach yn canolbwyntio ar 'Parhad a newid' o ran yr iaith a'r syniadau. Bellach bydd un dasg llafaredd yn seiliedig ar farddoniaeth, gan gynnwys un gerdd o'r cyfnod 1600-1900, ac un dasg ysgrifennu estynedig yn seiliedig ar ddewis y ganolfan o ddrama gan Shakespeare.
- Gwnaeth cynnwys testun Shakespeare godi rhai cwestiynau. Roedd hyn yn un o'r pethau a ragnodwyd ym Meini Prawf Cymeradwyo'r Dwyradd, ac mae'n rhaid i ni ei gynnwys felly. Ym marn sawl ymatebwr, fodd bynnag, dylai dysgwyr Gradd Unigol gan y cyfle i astudio Shakespeare. Mewn ymateb i hyn, rydym wedi penderfynu cynnig drama gan Shakespeare fel un o'r dewis o bump drama yn Uned 4 y Gradd Unigol.
- Roedd disgrifio'r tasgau di-arholiad fel 'portffolio' wedi arwain at rai ymatebwyr yn holi beth fyddai hyn yn ei olygu. Mae'r amlinelliad diwygiedig yn egluro sawl tasg fyddai'n cyfrannu at gyflwyniadau Unedau 2, 3 a 5.


© WJEC CBAC Cyf.

- Ym marn rhai o'r ymatebwyr roedd hyd yr arholiadau ar gyfer Unedau 1, 4 a 6 yn rhy hir. O ganlyniad, mae hyd yr arholiadau hyn wedi'i fyrhau o 2 awr i 1.5 awr yr un. Byddwn yn parhau i adolygu'r cyfnodau hyn yn ystod y broses ddatblygu fanwl.
- Deallwn fod ymarferwyr yn awyddus i sicrhau bod y cymhwyster hwn yn ategu'r llwybrau dilyniant i astudiaeth uwch o'r Saesneg a byddwn yn gweithio i sicrhau bod hyn yn digwydd.

## TGAU Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg

Derbyniodd CBAC 90 o ymatebion, gyda mwy na hanner ohonyn nhw'n dod gan ymarferwyr mewn ysgol.

Cytunodd y mwyafrif o'r ymatebwyr bod y cymhwyster arfaethedig yn cefnogi'r Cwricwlwm i Gymru. Ar y cyfan roedd ymatebwyr yn cytuno neu'n rhannol gytuno bod y dull asesu yn briodol a bod dibenion yr uned yn briodol, yn ymgysylltu dysgwyr ac yn bodloni diben a nodau'r cymhwyster.

Nododd rhai ymatebwyr eu bod yn falch o weld themâu eang perthnasol, cynnwys ymwybyddiaeth o ddiwylliant a chymdeithas gwledydd iaith yr asesiad, y defnydd o ramadeg a geirfa graidd sy'n digwydd yn aml ac yn cael eu defnyddio'n aml, rhestr eang a chyflawn o ramadeg a dull gweithredu sy'n canolbwyntio mwy ar sgiliau.

Gofynnwyd wrth y rhanddeiliaid beth fyddai'n well ganddyn nhw, strwythur 4 uned neu 5 uned a chafwyd ymateb oedd wedi'i rannu gyfartal rhwng y ddau. Gan ystyried yr holl sylwadau a ddaeth o'r ymgynghoriad, roedd pryder y gallai pum uned atal dysgwyr rhag dewis iaith ac y byddai'n cael ei ystyried yn fwy heriol na phynciau eraill. Penderfynwyd felly y byddai 4 uned yn y cymwysterau.

Rydym yn cydnabod y pryderon canlynol:

- Mynegwyd rhai pryderon ynghylch nifer yr asesiadau di-arholiad. Ni allwn fynd i'r afael â'r pwyntiau hyn gan eu bod yn adlewyrchu penderfyniadau Cymwysterau Cymru; yn y Meini Prawf Cymeradwyo mae'n nodi bod yn rhaid asesu cyfanswm o rhwng 45% a 50% o'r cymhwyster drwy dasgau asesu di-arholiad sy'n cael eu gosod gan y corff dyfarnu a'u marcio gan y corff dyfarnu. Dewiswyd y ganran is ar sail adborth gan athrawon.
- Cyfeiriodd rhai o'r ymatebion yn yr ymgynghoriad at y ffaith y byddai diffyg haenau'n effeithio ar hyder y dysgwyr a'r niferoedd yn dilyn y cymhwyster. Ni allwn fynd i'r afael â'r pwynt hwn gan ei fod yn adlewyrchu penderfyniad a wnaed gan Cymwysterau Cymru o ran haenau fel sydd i'w weld yn y Meini Prawf Cymeradwyo cyhoeddedig.
- Roedd rhywfaint o bryder ynghylch nifer y themâu (mae 3 thema eang, 8 is-thema ac 18 o is-is-themâu yn y fanyleb bresennol). Yn amlinelliad diwygiedig y cymhwyster hwn, mae'r un tair thema ac mae nifer arfaethedig yr is-themâu wedi mynd i lawr i 8; nid oes unrhyw is-is-themâu.
- Mynegwyd rhywfaint o bryder ynghylch amseru asesiad di-arholiad Uned 1 yn nhermau gwrthdaro ag asesiadau llafar y Gymraeg yn ystod y cyfnod o 5 wythnos sydd wedi'i sefydlu ar gyfer cynnal yr asesiadau llafar. Er mwyn osgoi gwrthdaro byddwn yn ystyried amseriadau pob asesiad llafar.
- Mynegwyd rhywfaint o bryder ynghylch hyd arfaethedig yr arholiadau ysgrifenedig. O ganlyniad, rydym wedi gostwng hyd yr arholiad o 1.5 awr i 1 awr ar gyfer Uned 2. Mae hynny'n golygu y bydd modd ei gwblhau yn ystod un wers wedi'i hamserlennu, gydag Uned 4 yn mynd i lawr o 2 awr i 1.5 awr.
- Mynegwyd rhai pryderon hefyd ynghylch hyd yr arholiad gwrando Uned 3 (a osodwyd ar 45 munud) y credwyd ei fod yn rhy hir. Fodd bynnag, mae 35 munud gyda 5 munud o amser darllen ychwanegol wedi'i ddyrannu ar gyfer y gwrando Haen Sylfaenol ar hyn o bryd, gyda 45 munud ynghyd â 5 munud o amser darllen ychwanegol ar gael ar gyfer yr Haen Uwch. Pwysleisiwyd yn yr amlinelliad diwygiedig o'r cymhwyster bod amser darllen wedi'i gynnwys.



© WJEC CBAC Cyf.

- Mynegwyd rhai pryderon ynghylch canfod testunau yn Uned 2 a thegwch dysgwyr llai galluog yn astudio'r un testun â dysgwyr mwy galluog. Bydd CBAC yn gosod paramedrau ar gyfer dethol testunau ynghyd ag enghreifftiau ym mhob iaith. Yn yr amlinelliad diwygiedig o'r cymhwyster rydym wedi diwygio rhywfaint ar y geirio er mwyn pwysleisio y bydd gan ganolfannau a dysgwyr y rhyddid i ddewis testunau gwahanol i ddysgwyr gwahanol.
- Nodwyd yr agwedd wrando fel yr agwedd fwyaf heriol i ddysgwyr yn yr ymatebion, gyda sylwadau'n cael eu gwneud y byddai'n fuddiol i ddysgwyr allu gwrando ar y recordiadau yn Uned 3 nifer o weithiau. Yn yr amlinelliad diwygiedig o'r cymhwyster rydym wedi nodi'n benodol y bydd pob darn yn cael ei chwarae dair gwaith.
- Codwyd cwestiynau hefyd ynghylch anhawster cyfieithu o'r Gymraeg/Saesneg i iaith yr asesiad yn Uned 4. Cafodd hyn ei gynnwys yn fersiwn drafft cychwynnol yr amlinelliad i adlewyrchu gofynion y Meini Prawf Cymeradwyo. Fodd bynnag, ers hynny mae Cymwysterau Cymru wedi dileu'r gofyniad hwn o'r Meini Prawf Cymeradwyo ac felly rydym wedi diwygio'r amlinelliad o'r cymhwyster i gynnwys cyfieithu o iaith yr asesiad i Gymraeg/Saesneg yn unig.

# Maes Dysgu a Phrofiad Mathemateg a Rhifedd

## TGAU Mathemateg a Rhifedd

Derbyniodd CBAC 105 o ymatebion, gyda hanner yr ymatebwyr yn ateb ar ran ysgol, gyda'r mwyafrif yn nodi eu bod yn athrawon.

Cytunodd y mwyafrif o'r ymatebwyr bod strwythur a dull asesu arfaethedig y cymhwyster yn briodol; bod yr unedau'n canolbwyntio ar bethau priodol; bod dibenion yr unedau'n ymgysylltu dysgwyr ac yn bodloni diben a nodau'r cymhwyster; ac y bydd y cymhwyster arfaethedig yn cefnogi'r Cwricwlwm i Gymru. Ar y cyfan roedd ymatebwyr yn cytuno neu'n rhannol gytuno bod y cymhwyster arfaethedig yn hydrin i ganolfannau a dysgwyr fel ei gilydd.

Roedd yr ymatebwyr yn eu sylwadau'n nodi eu bod yn croesawu'r elfennau canlynol yn arbennig:
- Lleihau nifer cyffredinol yr asesiadau o bedwar arholiad i dri.
- Gallu canolbwyntio ar fathemateg ariannol ar gyfer Uned 1. Mae hyn yn cefnogi'r ffocws mae'r Cwricwlwm i Gymru yn ei roi ar lythrennedd ariannol a llesiant dysgwyr.
- Cyflwyno haenau cymysg i'r cymhwyster newydd. Bydd hyn yn galluogi cofrestru dysgwyr am haenau gwahanol ar draws unedau gwahanol, gan fynd i'r afael â phryderon ymatebwyr na fyddai llawer o ddysgwyr yn gallu ennill mwy na gradd C.

Nodwyd gan yr ymatebwyr y dylai'r cynnwys fod yn benodol ar gyfer pob uned fel y gall y model unedol weithio'n effeithiol. Ni ddylai fod angen iddysgwyr ymdrin â holl gynnwys y pwnc cyn ymgymryd ag unrhyw asesiad. Rydym yn cadarnhau mai fel hyn y bydd hi, ac y bydd y fanyleb yn egluro pa destunau fydd yn rhan o bob uned.

Gofynnodd ymatebwyr am eglurhad a fyddai Uned 1: Mathemateg Ariannol a Chymwysiadau Eraill o Rifedd yn caniatáu defnyddio cyfrifiannell. Gallwn gadarnhau mai fel hyn y bydd hi, gan olygu y bydd y TGAU wedi'i rannu'n 70% o asesiad cyfrifiannell, a 30% o asesiad heb gyfrifiannell.

Roedd y pryderon a fynegwyd gan nifer o ymatebwyr yn ymwneud ag elfennau o'r cymhwyster sydd eisoes wedi'u pennu gan Feini Prawf Cymeradwyo Cymwysterau Cymru ar gyfer TGAU Mathemateg a Rhifedd sy'n golygu felly nad ydym yn gallu mynd i'r afael â nhw. Mae’r rhain yn cynnwys:



© WJEC CBAC Cyf.

- symud o dair haen i ddwy haen
- gwneud y TGAU yn gymhwyster Dwyradd, heb gynnig cymhwyster Gradd Unigol
- barn gymysg o ran cael cymhwyster unedol
- barn gymysg o ran asesu'r cymhwyster drwy 100% o arholiad allanol.

Mynegodd rhai o'r ymatebwyr bryder bod hyd arfaethedig o 1 awr 45 munud ar gyfer arholiad Uned 3 yn rhy hir ar gyfer yr haen sylfaenol. Rydym wedi ystyried a fyddai'n rhesymol i hyd asesiad yr uned derfynol fod yn llai. Mae angen i ddysgwyr gael digon o amser i gwblhau papur a fydd yn samplu 40% o gynnwys y cymhwyster. Mae angen i'r amser hwn felly fod yn gymesur â'r amser sydd wedi'i neilltuo i unedau eraill y bydd pob un ohonynt yn samplu 30% o gynnwys y cymhwyster. At ei gilydd, rydym wedi penderfynu parhau â'r 1 awr a 45 munud. Bydd hyn yn parhau i gael ei adolygu yn ystod y broses ddatblygu fanwl.

Ymgynghorwyd ar ddau opsiwn ar gyfer dyfarniad cyntaf y TGAU Mathemateg a Rhifedd:
- Opsiwn 1: Dyfarniad Cyntaf Tachwedd 2026
- Opsiwn 2: Dyfarniad Cyntaf Haf 2027

Ar ôl derbyn adborth ar yr opsiynau hyn, penderfynwyd mynd ymlaen ag Opsiwn 1, a gefnogwyd gan fwyafrif yr ymatebwyr.

# Maes Dysgu a Phrofiad Gwyddoniaeth a Thechnoleg

## TGAU Cyfrifiadureg

Derbyniodd CBAC 55 o ymatebion, gyda 45% o'r ymatebwyr yn ateb ar ran ysgol.

Cytunodd y mwyafrif o'r ymatebwyr bod yr unedau'n canolbwyntio yn briodol a'u bod yn berthnasol ac yn ymgysylltu dysgwyr. Ar y cyfan roedd ymatebwyr yn cytuno neu'n rhannol gytuno bod strwythur y cymhwyster a'r dull asesu yn briodol, y bydd y cymhwyster arfaethedig yn cefnogi'r Cwricwlwm i Gymru a bod y cymhwyster arfaethedig yn hydrin i ganolfannau a dysgwyr fel ei gilydd.

Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y pryderon canlynol:
- Mynegwyd rhai pryderon ynghylch rhagnodi un iaith raglennu. Fodd bynnag, gwnaed y penderfyniad hwn eisoes gan Cymwysterau Cymru; yn y Meini Prawf Cymeradwyo mae'n nodi bod un o'r ieithoedd rhaglennu i'w dewis gan y corff dyfarnu. Er bod rhai o'r ymatebwyr wedi cwestiynu pam y dewiswyd Python gennym, daethpwyd i'r penderfyniad hwnnw oherwydd ei fod ar gael yn eang, yn rhad ac am ddim i'w ddefnyddio, yn cael ei ddefnyddio'n helaeth yn y diwydiant ac yn gystrawen hawdd ei dysgu.
- Mynegodd rhai ymatebwyr bryder nad oedd digon o elfen raglennu yng nghynnwys y pwnc. Fodd bynnag, mae cynnwys y pwnc wedi'i bennu yn y Meini Prawf Cymeradwyo; teimlwn y gallai ychwanegu mwy o gynnwys at yr hyn a bennwyd arwain at addysgu a dysgu anhydrin.
- Mynegwyd rhywfaint o bryder hefyd ynghylch peidio â chynnwys Deallusrwydd Artiffisial yng nghynnwys y pwnc. Ar y cyd â'r Grŵp Cynghori ar Ddatblygu Cymwysterau Cyfrifiadureg, teimlwn fod y gyfrifiadureg sy'n sail i Ddeallusrwydd Artiffisial yn rhy anodd ar gyfer lefel TGAU ond bydd yn cael ei gynnwys yn yr adran Profiadau heb eu hasesu yn y fanyleb.
- Mynegodd nifer o ymatebwyr bryder ynghylch symud i ffwrdd o asesiad di-arholiad i arholiad digidol 2-awr o hyd i asesu rhaglennu. Ni allwn fynd i'r afael â hyn gan ei fod yn adlewyrchu penderfyniad Cymwysterau Cymru ac i'w gael yn y Meini Prawf Cymeradwyo.


© WJEC CBAC Cyf.

## TGAU Y Gwyddorau (Dwyradd)

Derbyniodd CBAC 124 o ymatebion, gyda hanner yr ymatebwyr yn ateb ar ran ysgol, gyda'r mwyafrif yn nodi eu bod yn athrawon.

Cytunodd y mwyafrif o'r ymatebwyr â'r hyn rydym yn bwriadu ei wneud o ran yr haenau. Ar y cyfan roedd ymatebwyr yn cytuno neu'n rhannol gytuno â'r hyn mae'r unedau'n canolbwyntio arno a bod dibenion yr unedau'n bodloni diben a nodau'r cymhwyster.

Nododd yr ymatebwyr bod yr uned gwyddoniaeth ymarferol yn addas i asesu defnydd dysgwyr o wyddoniaeth ymarferol. Derbyniwyd bod y dull o ddewis tasgau'n fwy hydrin i ganolfannau. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y pryderon canlynol:

- Cyfeiriodd llawer o'r ymatebwyr at y ffaith bod y cymwysterau gwyddoniaeth ar wahân yn cael eu colli. Ni allwn fynd i'r afael â hyn gan ei fod yn adlewyrchu penderfyniad Cymwysterau Cymru. Dylid nodi y bydd canlyniadau arholiadau Uned 3 – Bioleg, Uned 4 – Cemeg, ac Uned 5 – Ffiseg yn cynnwys is-raddau ar gyfer y pynciau gwyddoniaeth unigol. Ystyr hyn yw y bydd dysgwyr yn derbyn gradd gyffredinol am y cymhwyster, ac is-raddau am fioleg, cemeg, a ffiseg.
- Gwnaeth rhai ymatebwyr y sylw na fyddai'r cymhwyster yn bodloni anghenion pob dysgwr. Cyhoeddodd Cymwysterau Cymru y bydd cymhwyster TGAU Gradd Unigol ar gael i'w addysgu am y tro cyntaf o 2026, blwyddyn ar ôl i'r cymhwyster dwyradd fod ar gael. Yn y cyfamser, bydd y cymhwyster TGAU Gwyddoniaeth Gymhwysol (Gradd Unigol) yn parhau i fod ar gael. Bydd y cymhwyster Gradd Unigol newdd hwn yr un mor heriol â'r holl TGAU eraill ond nid oes bwriad iddo gefnogi dilyniant i gymwysterau UG a Safon Uwch gwyddoniaeth. Caiff cymhwyster Dwyradd y Gwyddorau ei lunio i gefnogi dilyniant i gymwysterau UG a Safon Uwch gwyddoniaeth a bydd cynnig yr is-raddau o gymorth i'r canolfannau fesur cyrhaeddiad yn nisgyblaethau'r gwyddorau unigol.
- Cyfeiriodd rhai o'r ymatebion at bwysoli uchel yr asesiad ym Mlwyddyn 11. Ni allwn fynd i'r afael â hyn gan ei fod yn adlewyrchu penderfyniad Cymwysterau Cymru ac i'w gael yn y Meini Prawf Cymeradwyo. Bydd yr asesiad ymarferol gwyddoniaeth yn digwydd yn gynnar yn nhymor y gwanwyn fel y bydd dysgwyr wedi cael y cyfle i gyflawni sawl asesiad ymarferol gwyddoniaeth yn rhan o'u dysgu.
- Mynegwyd peth pryder ynghylch sut y bwriadwyd amseru'r asesiad ar gyfer Uned 1 – Dod â'r Gwyddorau at ei gilydd a pha mor briodol yw'r hyn mae'r uned yn canolbwyntio arno. Roedd Cymwysterau Cymru eisoes wedi penderfynu y byddai'r asesiad yn cael ei sefyll ym mlwyddyn gyntaf yr astudio ac roedd hynny'n un o amodau'r Meini Prawf Cymeradwyo. Bydd y fanyleb yn dangos yn glir pa gynnwys sydd i'w asesu'n rhan o'r uned gan ddod o'r cynnwys sydd wedi'i roi ar gyfer bioleg, cemeg, a ffiseg. Mae'r amlinelliad o'r cymhwyster wedi'i ddiwygio i egluro hyn.
- Anghytunodd y mwyafrif o'r ymatebwyr y byddai'r cymhwyster yn hydrin i ddysgwyr a chanolfannau, gydag ymatebwyr yn cyfeirio at faint o gynnwys oedd yn ofynnol ar gyfer y cymhwyster. Mae'r testunau y mae'n rhaid i'r cymhwyster eu cynnwys wedi'u pennu yn y Meini Prawf Cymeradwyo gan Cymwysterau Cymru. Fodd bynnag, mae CBAC yn cydweithio â'r Grŵp Cynghori ar Ddatblygu ar gyfer y Gwyddorau, gan gynnwys cynnal is-gyfarfodydd ar gyfer pynciau Bioleg, Cemeg a Ffiseg, gyda mwy na 20 o athrawon sy'n ymarfer. Bydd y grŵp yn ein cynghori ar ehangder a dyfnder y testunau penodedig wrth i ni ddatblygu'r manylion ar gyfer y fanyleb. Gofynnwn iddyn nhw ystyried pryderon yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad o ran faint o gynnwys sydd yna, o fewn paramedrau'r Meini Prawf Cymeradwyo. Mae arweiniad yn cael ei roi i awduron ein manylebau o ran nifer yr Oriau Dysgu dan Arweiniad i bob uned er mwyn sicrhau bod modd addysgu'r cynnwys yn yr amser sydd ar gael.



© WJEC CBAC Cyf.